## Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol
## Health and Social Care Committee

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Lesley Griffiths AC
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd, CF99 1NA

Bae Caerdydd / Cardiff Bay
Caerdydd / Cardiff CF99 1NA

28 Chwefror 2013

Annwyl Weinidog,

**Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Plant a Theuluoedd**

Fel y byddwch yn ymwybodol, mae'r Pwyllgor Busnes wedi cyfeirio'r Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol mewn perthynas â'r Bil Plant a Theuluoedd at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol, ynghyd â'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, i'w ystyried.

Yn ystod ein cyfarfod y bore yma, cawsom drafodaethau cychwynnol ar y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, a buasem yn ddiolchgar pe gallech ddarparu ychydig o eglurder ar y pwyntiau a ganlyn-

- pam nad oedd y darpariaethau yn y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol wedi'u cynnwys ym Mil Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Llywodraeth Cymru, oherwydd y maent yn berthnasol i ddarpariaethau yn y Bil hwnnw; a
- pa fesurau trosiannol sy'n cael eu rhoi yn eu lle mewn perthynas â datgymhwyso'r Ddeddf Mabwysiadu a Phlant yng Nghymru.

Bae Caerdydd
Cardiff Bay
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8644
E-bost / Email: PwyllgorIGC@cymru.gov.uk / HSCCommittee@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

Oherwydd bod angen i ni adrodd yn ôl erbyn 22 Mawrth 2013, byddwn yn ddiolchgar iawn i gael ateb gennych erbyn **dydd Iau 7 Mawrth** er mwyn i Aelodau allu ystyried eich ymateb yn llawn cyn paratoi eu hadroddiad.

Yn gywir

**Mark Drakeford AC AM**
Cadeirydd – Chair

Cc: Christine Chapman AC, Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc